

Evolocumab ar gyfer trin hypercolesterolemia sylfaenol a dyslipidemia cymysg

Mehefin 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir evolocumab (Repatha) fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â hypercolesterolemia sylfaenol neu dyslipidemia cymysg:

- os yw'r dos o evolocumab yn cyfateb i 140 mg bob 2 wythnos ac
- os nad yw lefel y colesterol lipoprotein dwysedd isel yn cael ei rheoli'n dda gan ddefnyddio'r dos uchaf a argymhellir o gyffuriau lleihau colesterol neu'r dos uchaf y gall yr unigolyn dan sylw ei oddef.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd evolocumab nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Y cyflwr a'r driniaeth

Termau meddygol yw hypercolesterolemia sylfaenol a dyslipidemia cymysg sy'n golygu bod lefelau colesterol unigolyn yn rhy uchel. Gall colesterol uchel gynyddu'r risg o glefyd y galon.

Mae sawl math gwahanol o gyffuriau lleihau colesterol ar gael sy'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys statinau ac ezetimibe.

Cyffur yw evolocumab sy'n helpu'r afu i dynnu colesterol o'r gwaed. Caiff ei roi drwy bigiad.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliad hwn roi cyngor a chymorth i chi:

- [HEART UK – Yr Elusen Golesterol](#), 0345 450 5988

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1991-8